CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

473/53

**HANES – HI3**

**UNED 3**

**ASTUDIAETH FANWL 3**

# DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1830-1848

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 3

## DIWYGIO A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1830-1848

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### ADRAN A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Protest drefol, 1830-1848**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Ni allai dim fod yn fwy nag amynedd yr Ynadon, y Swyddogion a'r Dynion; yn wir, pe bai'r terfysgwyr wedi cael eu cadw bellter draw trwy rym bidogau *(bayonets)*, efallai na fyddai'r canlyniadau truenus ac enbyd a ddigwyddodd wedi digwydd; ond mae gweithwyr Merthyr ers peth amser wedi arddangos agwedd beryglus iawn.

Dechreuodd yr achosion a arweiniodd at y digwyddiadau terfysglyd hyn, o bob adroddiad a dderbyniasom ac o bob person y buom yn siarad â hwy, oherwydd gostyngiad diweddar yng nghyflogau'r dynion ym Merthyr, a gododd o gyflwr dirwasgedig y Fasnach Haearn, ac o natur gormesol y Siopau Tryc *(Truck Shops)* yn yr ardaloedd o amgylch. Mae'r marw wedi cael eu claddu yn y dull distawaf a thawelaf gan eu cyfeillion, a phrin y ceisiodd y clwyfedig am gymorth nes i boen a llid *(inflammation)* eu gorfodi – prawf sicr bod eu cydwybodau wedi eu collfarnu am eu heuogrwydd a'u trosedd afreolus. Adferwyd llawer iawn o'u harfau, a disgwylir yr ildir y cyfan yng nghwrs yr wythnos, gan fod y deiliaid yn awyddus dim ond i gael gwared â nhw heb berygl iddynt hwy eu hunain.'

[O adroddiad yn *The Cambrian*, papur newydd rhanbarthol (11 Mehefin 1831)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'Siopau Tryc' (llinell 8). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am Ferthyr wedi'r gwrthryfel? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall protest drefol, 1830-1848? [20]
*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

**2. Yr ymgyrch dros ddiwygio cymdeithasol, 1830-1848**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Mae'n well gennym ei mentro hi â cholera a'r gweddill yn hytrach na chael ein bwlio i iechyd. Nid oes dim mae dyn yn ei gasáu mwy na chael ei lanhau yn erbyn ei ewyllys, neu gael ei loriau wedi'u hysgubo, ei furiau wedi'u gwyngalchu, ei domenni anwes wedi'u symud ymaith, neu ei do gwellt wedi gorfod ildio i lechi, y cyfan ar orchymyn math o unben glanweithdra *(sanitary dictator)*. Mae'n ffaith bositif bod llawer wedi marw o gael eu golchi'n dda. Dengys hyn oll y tynerwch eithafol sydd ei angen i symud ymlaen â'r gwaith o buro. Nid felly, meddyliai Mr Chadwick. Mae mopiau newydd yn golchi'n lân, yn ei feddwl ef, ac aeth ati i weithio, ym mhob man yn golchi a splasio, a chwyrlïo a rinsio, a sbwnjio a diferu, a sebona a mopio, nes i ddynoliaeth ddechrau ofni dilyw o sebon a dŵr. Roedd hi'n nos Sadwrn dragwyddol, a chafodd Meistr Siôn Darw *(Master John Bull)* ei sgwrio, a'i rwbio, a'i gribo â chrib mân, nes i ddagrau ddod i'w lygaid, ac i'w ddannedd glecian, ac i'w ddyrnau glensio â'i gilydd â gofid a phoen. Y gwir yw, mae gan Mr Chadwick bwerau mawr iawn, ond nid yw'n hawdd dweud at beth y gellir eu cymhwyso. Efallai y bydd pensiwn ymddeol, gyda dim i'w wneud, yn ffordd lai annerbyniol o wobrwyo'r gŵr bonheddig hwn na'r hyn a elwir yn gylch gweithredol *(active sphere)*.'

[O erthygl olygyddol yn y papur newydd *The Times*, yn rhoi sylwadau am waith y Bwrdd Iechyd Cyffredinol (Gorffennaf 1854)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'mae gan Mr Chadwick bwerau mawr iawn' (llinell 12). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am wrthwynebwyr diwygio iechyd cyhoeddus? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall yr ymgyrch dros ddiwygio cymdeithasol, 1830-1848? [20]
*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

## ADRAN B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

### 3. Diwygio'r Senedd a newidiadau, 1830-1848

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Nid ydym yn awr yn byw yn nyddiau'r barwniaid – rydym yn byw yn nyddiau Leeds, Bradford, Halifax, Huddersfield. Rwyf o blaid ymestyn hawliau pleidlais yn nhrefi mawr Lloegr. Rwyf o blaid ymestyn hawliau pleidlais i'r dosbarth hwnnw o bobl nad oes ganddynt yn awr hawl mewn unrhyw dref yn Lloegr – deiliaid tai *(householders)* – ac rwyf o blaid byrhau cyfnod y Senedd.'

[Yr Arglwydd Brougham, gwleidydd Chwigaidd blaenllaw, mewn araith etholiadol yn Leeds (27 Gorffennaf 1830)]

Ffynhonnell B

'Roedd Bryste gyfan ar fin cael ei dinistrio; ysbeiliwyd a llosgwyd y plasty, y tolldy, swyddfa'r ecseis a phlas yr esgob; dymchwelwyd y tollfeydd, ffrwydrwyd y carchardai yn agored â gyrdd *(sledge hammers)*, a rhyddhawyd eu carcharorion. Yn ystod y dydd Sul cyfan roedd y dorf derfysglyd yn feistri diwrthwynebiad ar y ddinas.'

[O ddisgrifiad o derfysgoedd Bryste yn 1831, a ysgrifennwyd gan Archibald Prentice, diwygiwr cymdeithasol a newyddiadurwr, yn *Historical Sketches and Personal Recollections* (1851)]

Ffynhonnell C

'Ond cyflwynwyd dylanwad democrataidd newydd i'r etholiadau, y copiddeiliaid a'r rhydd-ddeiliaid a'r prydleswyr sy'n trigo yn y trefi nad ydynt hwy eu hunain yn anfon aelodau i'r Senedd. Y drwg gyda'r diwygio yw, er i ddemocratiaeth fodoli cyn hyn mewn rhai mannau'n unig, bellach mae'n bodoli ym mhobman. Nid oes un man wedi'i heithrio ohoni.'

[Y Dug Wellington, yn ysgrifennu at John Croker, gwas sifil (Mawrth 1833)]

Ffynhonnell CH

'Hoff ddisgwyliad cyfeillion y bobl oedd y byddai meddyginiaeth i'r helaethaf, os nad y cyfan, o'u cwynion i'w chanfod yn Neddf Ddiwygio 1832. Maent wedi cael eu twyllo'n enbyd a chywilyddus. Mae'r Ddeddf Ddiwygio wedi symud grym o un garfan reoli i un arall, ac wedi gadael y bobl yn ddigymorth fel o'r blaen.'

[O Ddeiseb y Siartwyr (1838)]

<u>Ffynhonnell D</u>



[Paentiad o'r cyfnod o derfysgoedd Bryste (1831)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau C ac CH. Sut mae Ffynonellau C ac CH yn dangos safbwyntiau gwahanol am effeithiau diwygio'r Senedd? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A a B. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A a B fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r digwyddiadau sy'n arwain at basio'r Ddeddf Ddiwygio? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall diwygio'r Senedd a newidiadau, 1830-1848? [24]
*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*



**Trosodd.**

**4. Protestiadau yng nghefn gwlad, 1830-1848**

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Mae cyflwr y wlad yn ddychrynllyd; mae pob post yn dod â disgrifiadau newydd o goelcerthi, dinistrio peiriannau, llafurwyr yn cydgysylltu, a chynnydd gorfodol mewn cyflogau. Yn sicr, nid adfyd *(distress)* yw achos y cynyrfiadau hyn. Yn Hampshire mae'r terfysgoedd wedi bod yn ofnadwy. Cafwyd cynulliad o 1,000 neu 1,500 o ddynion, ac wedi iddynt ddinistrio peiriannau dyrnu *(threshing-machines)* ac offer amaethyddol eraill, cyfarfu Bingham Baring, yr Aelod Seneddol lleol, â hwy a cheisiodd eu hannerch, pan drawyd ef i lawr gan ddyn â bar haearn, a bu bron iddo gael ei ladd.'

[O ddyddiadur gwleidyddol a gadwyd gan Charles Greville, gwas sifil amlwg (1830)]

Ffynhonnell B

'Tywyllwyd a chywilyddiwyd y gymdogaeth gan y gweithredoedd troseddol hyn ers dechrau'r flwyddyn. Gobeithio y bydd yr awdurdodau'n dyfeisio rhyw foddion i roi pen ar y dorf derfysglyd. Rhaid gwneud esiamplau o'r rheini sydd wedi sathru ar hawliau eiddo. Mae'r Comisiwn Brenhinol wedi cadw'n fyw yr ysbryd o anfodlonrwydd y dylsai fod wedi ei ddifa.'

[O adroddiad yn *The Carmarthen Journal*, papur newydd lleol a gelyniaethus tuag at brotest boblogaidd (1843)]

Ffynhonnell C

'Mae'r olwg gyflawn ar y terfysgoedd Cymreig yn gorfodi'r farn na fyddent byth wedi cyrraedd eu huchafbwynt pe bai'r llywodraeth wedi gweithredu â barn a phwyll cyffredin. Byddai ymholiad a thegwch, yn y lle cyntaf, mae'n debyg, wedi rhoi diwedd ar y mater.'


[O bapur newydd radicalaidd lleol, *The Welshman* (15 Medi 1843)]

Ffynhonnell CH

'Ceir arferiad yn y rhan hon o'r wlad a elwir cludo *Ceffylau Pren*. Mae'r ffordd o gael gwared â'r fath gŵyn trwy drais yn y nos yn hollol gyfarwydd yn eu meddyliau hwy. Ynglŷn â chael tystiolaeth yn eu herbyn, mae hynny'n anobeithiol.'

[O lythyr at yr Ysgrifennydd Cartref gan E. C. Lloyd Hall, tirfeddiannwr yng ngorllewin Cymru (Mehefin 1843)]

<u>Ffynhonnell D</u>




[O gartŵn o'r cyfnod am y terfysgoedd Swing (1830)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau B ac C. Sut mae Ffynonellau B ac C yn dangos safbwyntiau gwahanol am Derfysgoedd Beca? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A ac CH. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A ac CH fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio maint protestiadau yng nghefn gwlad? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau i ddeall protestiadau yng nghefn gwlad, 1830-1848? [24]

*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*